# Bingo gwerth - Cynllun gweithgaredd gemau

## Disgrifiad

Gêm bingo syml, i helpu dysgwyr i ddeall angen ac eisiau, ac i archwilio syniadau o werth.

## Paratoi

Penderfynwch a ddylai fod yn dasg i'w gwneud yn unigol, mewn parau neu grŵp.
Argraffwch a thorrwch y papurau £10 allan – un papur i bob dysgwr, pâr neu grŵp.
Argraffwch a thorrwch y cardiau eitem allan – un set i bob dysgwr, pâr neu grŵp.
Argraffwch y gridiau bingo gwerth – un grid i bob dysgwr, pâr neu grŵp.
Argraffwch y rhestr brisiau – un copi athro.
Yn ddelfrydol mae'r gweithgaredd hwn yn cysylltu â stori Dylan – Rhan Dau.

## Adnoddau

Yr holl ddeunyddiau i'w hargraffu sydd ynghlwm.

Pennau/pensiliau

Unrhyw adnoddau rhifedd a ffefrir sydd eu hangen i gyfrifo cyfansymiau.

## Geirfa

Angen, eisiau, cost, pris, gwerth, £ (punt)

## Cyflwyniad/cyd-destun

Rhowch un papur £10, grid bingo gwerth a set o gardiau eitem i'r dysgwyr. Cyfarwyddwch y dysgwyr y bydd angen iddyn nhw ddewis chwe eitem i'w prynu gyda'u £10. Bydd angen iddyn nhw feddwl faint fydd cost yr eitemau. Pan fyddan nhw wedi dewis eu heitemau, bydd yr athro yn galw prisiau'r eitemau. Bydd yn rhaid i'r dysgwyr ysgrifennu'r pris yn y sgwâr. Ar ddiwedd y gweithgaredd, bydd y dysgwyr yn cyfrifo eu cyfansymiau i weld a ydyn nhw wedi llwyddo i gadw'r gost o dan £10.

Amser 5-10 munud

### Anghenion

Gofynnwch i'r dysgwyr benderfynu pa dair eitem sydd eu hangen. Cyfeiriwch at y cwestiynau o stori Dylan. 'Y pethau sydd eu hangen yw'r pethau sy'n ein cadw'n iach ac yn ddiogel.' Dywedwch wrth y dysgwyr i osod yr eitemau maen nhw wedi'u dewis ar eu grid, un ym mhob sgwâr.

Amser 5-15 munud

### Eisiau

Gofynnwch i'r dysgwyr benderfynu ar dair eitem arall y gallen nhw eu prynu. Atgoffwch nhw fod yn rhaid iddyn nhw gadw o fewn eu cyfanswm cost o £10 ar gyfer y 6 eitem.

Amser 10-20 munud

### Galw allan

Pan fydd pob dysgwr wedi dewis ei eitemau, mae'r athro yn galw pris pob eitem. Bydd y dysgwyr yn cofnodi'r gwerth hwn yn y sgwâr cyfatebol. Pwysleisiwch yr eirfa wrth alw allan. Fe wnaethom ni edrych ar yr eitemau a dyfalu eu gwerth. Beth ydym ni'n meddwl yw gwerth ____? Faint yw ei gost? Y pris yw...

Amser 20-30 munud

### Cyfanswm

Dylai dysgwyr gyfrifo cyfanswm gwerth yr holl eitemau y gwnaethon nhw eu dewis, i ddarganfod a oedden nhw wedi cadw o fewn cyfanswm y gost o £10.

Amser 10-20 munud

### Casgliad

Trafodwch y gweithgaredd fel dosbarth. Oedd unrhyw un yn meddwl bod eitemau gwahanol yn anghenion? Ysgrifennwch 'anghenion' ar y bwrdd a chreu rhestr dosbarth o eitemau eraill sydd eu hangen arnom.
A wnaeth unrhyw un danbrisio neu orbrisio gwerth eitemau penodol? Archwiliwch y rhesymau dros eu penderfyniadau a chwiliwch am gyfleoedd i herio canfyddiadau gwerth. Beth yw gwerth yr eitemau hyn i ni?

**Rhestr Brisiau**

| Eitem | Pris | Angen/Eisiau |
|---|---|---|
| Dŵr | £1.00 | Angen |
| Brechdan | £2.00 | Angen |
| Crys-t | £3.00 | Angen |
| Cragen brydferth | £0.00 | Eisiau |
| Car rheoli-o-bell | £10.00 | Eisiau |
| Swigod | £1.00 | Eisiau |
| Gwyliau i Sbaen | £500.00 | Eisiau |
| Bar o siocled | £1.00 | Eisiau |
| Gêm cyfrifiadur | £30.00 | Eisiau |
| Beic | £100.00 | Eisiau |
| Tegan | £10.00 | Eisiau |
| Gwên | £0.00 | Eisiau |
| Plas | £1,000,000.00 | Eisiau |
| Car | £1,000.00 | Eisiau |
| Llyfr lliwio | £1.00 | Eisiau |
| Torsh bach | £1.00 | Eisiau |